DAFYDD LLWYD o'r HENBLAS (neu DAFYDD LLWYD ap SION) (bu farw 1619), bardd ac ysgolhaig

Enw: Dafydd Llwyd
Dyddiad marw: 1619
Priod: Catrin ferch Rhisiart Owen
Priod: Sian ferch Llywelyn ap Dafydd
Plentyn: Richard Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac ysgolhaig
Cartref: HENBLAS
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Ray Looker

o deulu bonheddig yr Henblas, (Llangristiolus, Môn) y dywedir iddo raddio yn B.A. o S. Edmund Hall, Rhydychen. Priodod Catrin ferch Rhisiart Owen o Benmynydd a bu iddynt tuag wyth o blant, a thri o'r meibion yn glerigwyr. Yn ôl Lewys Dwnn a J. E. Griffith bu'n briod hefyd gyda Siân ferch Llywelyn ap Dafydd o Landyfrydog (a honno'n wraig gyntaf iddo yn ôl Dwnn), Soniwyd am ei ysgolheictod a dywedwyd ei fod yn medru wyth iaith. Cedwir nifer o'i gerddi, oll yn y mesurau caeth, mewn llawysgrifau. Yn eu plith ceir cywydd marwnad i'w wraig, Catrin, a thri englyn i un o'i feibion. Canodd ' Syr ' Huw Roberts a Rhisiart Cynwal farwnadau iddo.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Llawysgrif Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 2 (28, 162, 209, 212, 213, 217, 218, 240)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 124: Poetry (534)

Llawysgrif Sotheby yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth A. 1. 40 (55) (oll yn N.L.W.)

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandovery 1846), ii, 185, 265

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 122

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Angharad Llwyd, *A History of the Island of Mona, or Anglesey including an account of its natural productions, Druidical antiquities, lives of eminent men, the customs of the court of the ancient welsh princes, etc. :being the prize essay to which was adjudged the first premium at the Royal Beaumaris Eisteddfod, held in the month of August, 1832* (Rhuthin 1833), 277

J. Fisher, *The Cefn Coch MSS. two MSS. of Welsh poetry written principally during the 17th century* (Lerpwl 1899), 7

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732750

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.